

**HEFCW newsletter**

**March 2013**

**Chief Executive's introduction**  
**Applications to higher education in 2013/14**  
**Skills and Employability Action Plan funding**  
**Research news**  
**Students**  
**Council news**  
**Times Higher Education Awards 2012**  
**Publications**  
**Events**

**Newyddlen CCAUC**

**Mawrth 2013**

**Cyflwyniad y Prif Weithredwr**  
**Ceisiadau i addysg uwch yn 2013/14**  
**Cyllid Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogadwyedd**  
**Newyddion ymchwil**  
**Myfyrwyr**  
**Newyddion y Cyngor**  
**Gwobrau Times Higher Education 2012**  
**Cyhoeddiadau**  
**Digwyddiadau**

**Chief Executive's introduction**

We are but a few weeks away from announcing our funding for higher education for the next academic year, and we have already been discussing with higher education institutions what they might expect from the 2013/14 funding settlement.

We have committed to maintaining previous levels of research funding, wherever possible, but, as expected, there will be reductions in areas of teaching funding, which will be offset to varying degrees by increases in tuition fees from full-time undergraduate students. We'll be setting this out in some detail at in our annual funding publication which will be published shortly after the Easter break.

In the meantime, we have been consulting on revised arrangements for Fee Plans from 2014, which will be confirmed in March. And look out for our next Corporate Strategy in the spring. This will set out our plans and aspirations for higher education in Wales over the next three years.

**Cyflwyniad y Prif Weithredwr**

Dim ond ychydig o wythnosau sydd ar ôl tan i ni gyhoeddi ein cyllid ar gyfer addysg uwch ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf, ac rydym eisoes wedi bod yn trafod gyda sefydliadau addysg uwch yr hyn y gallent ei ddisgwyl gan setliad ariannol 2013/14.

Rydym wedi ymrwmo i gynnal y lefelau blaenorol o gyllid ymchwil lle bynnag y bo'n bosibl, ond, yn unol â'r disgwyl, bydd gostyngiadau ym meysydd cyllido addysgu, a fydd yn cael eu gwrthbwysu i raddau amrywiol drwy gynnydd yn y ffioedd dysgu gan israddedigion amser llawn. Byddwn yn nodi hyn yn fanwl yn ein cyhoeddiad cyllido blynyddol a fydd yn cael ei gyhoeddi'n fuan ar ôl gwyliau'r Pasg.

Yn y cyfamser, rydym wedi bod yn ymgynghori ar drefniadau diwygiedig ar gyfer Cynlluniau Ffioedd o 2014, a fydd yn cael eu cadarnhau ym mis Mawrth. A chadwch lygaid ar agor am ein Strategaeth Gorfforaethol nesaf yn y gwanwyn. Bydd hyn yn cynnwys ein cynlluniau a'n dyheadau ar gyfer addysg uwch yng Nghymru dros y tair blynedd nesaf.

### Applications to higher education in 2013/14

Data published at the end of January showed an increase in applications through the UCAS university admissions service to full-time undergraduate courses in Wales. While there was a drop from last year in the number of students from Wales applying to study in the UK, higher education remains a good career option for students from Wales.

Although there are no up-front fees to pay, the Welsh Government pays the bulk of the tuition fee cost for full-time undergraduate and PGCE students from Wales. Recent Joseph Rowntree Foundation research has shown that higher qualifications increase the likelihood of being employed; some 90% of those qualified above a level 3 (equivalent to A-level) qualification are employed compared with 60% for those with the lowest levels of education.

[More](#)

### Ceisiadau i addysg uwch yn 2013/14

Roedd data a gyhoeddwyd ddiwedd mis Ionawr yn dangos cynnydd yn nifer y ceisiadau drwy wasanaeth derbyniadau prifysgolion UCAS i gyrsiau gradd yng Nghymru. Er y bu gostyngiad o'r llynedd yn nifer y myfyrwyr o Gymru a wnaeth gais i astudio yn y DU, mae addysg uwch yn parhau i fod yn opsiwn gyrfada i fyfyrwyr o Gymru.

Er nad oes ffioedd i'w talu ymlaen llaw, mae Llywodraeth Cymru'n talu swmp y ffioedd dysgu ar gyfer israddedigion llawn amser a myfyrwyr TAR o Gymru. Mae gwaith ymchwil diweddar a wnaed gan Sefydliad Joseph Rowntree wedi dangos bod cymwysterau uwch yn cynyddu'r tebygrwydd o gyflogaeth; mae oddeutu 90% o'r rhai a enillodd gymhwyster yn uwch na lefel 3 (cyfwerth â Safon Uwch) yn cael eu cyflogi o gymharu â 60% ar gyfer y rhai sydd â'r lefelau isaf o addysg.

[Mwy](#)

### Skills and Employability Action Plan funding

We have recently announced £1 million of one-off funding to support the development of institutional Skills and Employability Action Plans (SEAPs). The funding will be invested in innovative and collaborative new initiatives aimed at enhancing the employment prospects of Welsh graduates.

[More](#)

### Cyllid Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogadwyedd

Yn ddiweddar gwnaethom gyhoeddi cyllid untro gwerth £1 filiwn i gefnogi'r gwaith o ddatblygu Cynlluniau Gweithredu Sgiliau a Chyflogadwyedd sefydliadol. Bydd y cyllid yn cael ei fuddsoddi mewn mentrau arloesol a chydweithredol newydd wedi'u hanelu at wella rhagolygon cyflogaeth graddedigion Cymru.

[Mwy](#)

### Research news

#### Making the most of Wales's intellectual property

The St David's Day Group of research-led universities has created a network of **Technology Transfer Officers** to benefit the universities involved and the companies or organisations they work with. Their aim is to ensure that the wider economy derives maximum benefit from intellectual property

### Newyddion ymchwil

#### Gwneud y gorau o eiddo deallusol Cymru

Mae'r Grŵp Dydd Gŵyl Dewi o brifysgolion a arweinir gan ymchwil wedi creu rhwydwaith o **Swyddogion Trosglwyddo Technoleg** i fod o fudd i'r prifysgolion sy'n cymryd rhan a'r cwmnïau neu'r sefydliadau maent yn gweithio gyda hwy. Eu nod yw sicrhau bod yr economi ehangach yn sicrhau'r budd gorau posibl o

produced in Wales's universities.

[More](#)

### **RCUK equality and diversity statement**

RCUK, the umbrella body for the seven UK research councils, has published a **statement on embedding the principles of equality and diversity** when using research funding. The full statement is available on its [website](#).

### **Invitation to contribute to research on the impact of doctoral training**

Research and consultancy business CFE wants to hear from **anyone who graduated with a doctorate between 2004 and 2006** as well as **supervisors, research centres, alumni offices and networks with links to doctoral graduates** who can help contact graduates.

Research Councils UK (RCUK) and the four UK higher education funding bodies have commissioned CFE and partners from the Higher Education Careers Services Unit (HECSU) and Sheffield University to carry out research into the value and impact of doctoral training. The aim is to develop understanding of the difference doctoral graduates make in the workplace, and the extent to which doctoral training drives innovation and growth. Good evidence on this is vital to inform decisions on future investment in doctoral training.

[More information](#)

eiddo deallusol a gynhyrchir ym mhrifysgolion Cymru.

[Mwy](#)

**Datganiad cydraddoldeb ac amrywiaeth Cynghorau Ymchwil y DU (RCUK)** Mae RCUK, y corff ymbarél ar gyfer saith cyngor ymchwil y DU, wedi cyhoeddi **datganiad am ymgorffori egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth** wrth ddefnyddio cyllid ymchwil. Mae'r datganiad llawn ar gael ar ei [wefan](#).

### **Gwahoddiad i gyfrannu at ymchwil ar effaith hyfforddiant doethurol**

Mae CFE, busnes ymchwil ac ymgynghori, am glywed gan unrhyw un **a raddiodd gyda doethuriaeth rhwng 2004 a 2006** yn ogystal ag **ymgyngorwyr, canolfannau ymchwil, swyddfeydd a rhwydweithiau alumni sydd â chysylltiadau â graddedigion doethurol** a all helpu i gysylltu â graddedigion.

Mae Cynghorau Ymchwil y DU (RCUK), a'r pedwar corff cyllido addysg uwch yn y DU wedi comisiynu CFE a phartneriaid o'r Uned Gwasanaethau Gyrfaedd Addysg Uwch (HESCU) a Phrifysgol Sheffield i ymchwilio i werth ac effaith hyfforddiant doethurol. Y nod yw datblygu dealltwriaeth o'r gwahaniaeth a wna graddedigion doethurol yn y gweithle, ac i ba raddau y mae hyfforddiant doethurol yn ysgogi arloesedd a thyfiant. Mae tystiolaeth dda o hyn yn hanfodol i lywio penderfyniadau ar fuddsoddiadau yn y dyfodol ym maes hyfforddiant doethurol.

[Mwy o wybodaeth](#)

### **Students**

Thanks to the efforts of students and students' unions, NUS Wales, staff at universities and expert bodies, the HE experience is increasingly shaped by students. In fact, in 2012, Wales became the first UK country where every university had a student charter developed with its students.

### **Myfyrwyr**

Diolch i ymdrechion myfyrwyr ac undebau myfyrwyr, UCM Cymru, staff prifysgolion a chyrrff arbenigol, mae'r profiad o AU yn cael ei lywio fwyfwy gan fyfyrwyr. Mewn gwirionedd, yn 2012, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU lle roedd gan bob prifysgol siarter myfyrwyr a ddatblygwyd gan ei myfyrwyr.

<p>In November, our Chief Executive wrote in the Western Mail about the importance of making students' voices heard, and you can read the full article <a href="#">here</a>.</p>	<p>Ym mis Tachwedd, ysgrifennodd ein Prif Weithredwr erthygl yn y Western Mail am bwysigrwydd sicrhau bod lleisiau myfyrwyr yn cael eu clywed, a gallwch ddarllen yr erthygl lawn <a href="#">yma</a>.</p>
<p><b>Council news</b></p> <p>We welcomed three new members to our Council in January. Professor Mark Smith, Professor Stephen Tomlinson and Mr Ewart Wooldridge bring with them a wealth of experience at the highest levels in higher education in the UK.</p> <p style="text-align: right;"><a href="#">More</a></p>	<p><b>Newyddion y Cyngor</b></p> <p>Gwnaethom groesawu tri aelod newydd i'n Cyngor ym mis Ionawr. Daw'r Athro Mark Smith, yr Athro Stephen Tomlinson a Mr Ewart Wooldridge, â chyfoeth o brofiad ar y lefelau uchaf ym maes addysg uwch yn y DU gyda hwy.</p> <p style="text-align: right;"><a href="#">Mwy</a></p>
<p><b>Times Higher Education Awards 2012</b></p> <p>Congratulations to the University of Glamorgan for <a href="#">winning the award</a> in recognition of its student support.</p>	<p><b>Gwobrau Times Higher Education 2012</b></p> <p>Llongyfarchiadau i Brifysgol Morgannwg am <a href="#">ennill y wobr</a> i gydnabod ei chymorth rhagorol i fyfyrwyr.</p>
<p><b>Publications</b></p> <p>Circular W13/06HE: Improving environmental performance through student engagement</p> <p>Circular W13/03HE: Skills and Employability Action Plans (SEAPs) 2012/13 &amp; 2013/14 and SEAP Funding</p> <p>Circular W13/01HE: Consultation – high level proposals for fee planning from 2014/15</p> <p>W12/38HE: Maximum fee grant arrangements 2013/14. In December, we confirmed arrangements for maximum fee grant levels for each HE institution, which built on (but also superseded) the maximum student number arrangements outlined in April 2012.</p>	<p><b>Cyhoeddiadau</b></p> <p>Cylchlythyr W13/06HE: Gwella perfformiad amgylcheddol drwy ymgysylltu â myfyrwyr</p> <p>Cylchlythyr W13/03HE: Cynlluniau Gweithredu Sgiliau a Chyflogadwyedd (SEAP) 2012/13 a Chyllid SEAP</p> <p>Cylchlythyr W13/01HE: Ymgynghoriad - cynigion lefel uchel ar gyfer cynllunio ffioedd o 2014/15</p> <p>W12/38HE: Trefniadau uchafswm y grantiau ffioedd 2013/14. Ym mis Rhagfyr, gwnaethom gadarnhau trefniadau ar gyfer uchafswm y grantiau ffioedd ar gyfer pob sefydliad AU, a oedd yn adeiladu ar (ond hefyd yn rhagori) y trefniadau niferoedd myfyrwyr uchaf a amlinellwyd ym mis Ebrill 2012.</p>
<p><b>Events</b></p> <p><b>QAA Workshop: <i>Managing higher education provision with others</i></b></p> <p><b>Thursday, 25 April 2013</b>, Royal Welsh College of Music &amp; Drama, <b>Cardiff</b></p> <p>The QAA is holding a one-day workshop on behalf of HEFCW to explore the recently published Chapter of the UK Quality Code</p>	<p><b>Digwyddiadau</b></p> <p><b>Gweithdy gan yr ASA: <i>Rheoli darpariaeth addysg uwch gydag eraill</i></b></p> <p>Dydd Iau, 25 Ebrill 2013, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Caerdydd</p> <p>Mae'r ASA yn cynnal gweithdy undydd ar ran CCAUC i archwilio'r Bennod a gyhoeddwyd yn ddiweddar o God Ansawdd Addysg Uwch y</p>

for Higher Education, *B10: Managing higher education provision with other.*

[More](#)

---

**HEFCW Council meetings:**

Friday, 15 March 2013

Friday, 10 May 2013

Friday, 5 July 2013

Thursday, 5 September 2013

Friday, 8 November 2013

Friday, 24 January 2014

---

**HEFCW annual public meeting**

Friday, 18 October 2013 (morning)

DU, *B10: Rheoli darpariaeth addysg uwch gydag eraill.*

[Mwy](#)

---

**Cyfarfodydd Cyngor CCAUC:**

Dydd Gwener, 15 Mawrth 2013

Dydd Gwener, 10 Mai 2013

Dydd Gwener, 5 Gorffennaf 2013

Dydd Iau, 5 Medi 2013

Dydd Gwener, 8 Tachwedd 2013

Dydd Gwener, 24 Ionawr 2014

---

**Cyfarfod cyhoeddus blynyddol CCAUC**

Dydd Gwener, 18 Hydref 2013 (bore)

To **unsubscribe** from this newsletter, please email [info@hefcw.ac.uk](mailto:info@hefcw.ac.uk) with the words 'unsubscribe - newsletter' in the subject box.

I **dynnu'ch enw oddi ar restr danysgrifio'r** newyddlen hon, anfonwch neges e-bost at [info@hefcw.ac.uk](mailto:info@hefcw.ac.uk) gyda'r geiriau 'dynnu enw tanysgrifio i'r newyddlen' yn y blwch pwnc.

**We value your feedback**

We would like to know what you think about our newsletter. Please send your comments to [info@hefcw.ac.uk](mailto:info@hefcw.ac.uk).

**Rydym yn gwerthfawrogi eich adborth**

Hoffem wybod eich barn ar ein newyddlen. Anfonwch eich sylwadau at [info@hefcw.ac.uk](mailto:info@hefcw.ac.uk).